Canllaw i gymorth busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

201,000 o fusnesau yng Nghymru. Rydym am i bob un ffynnu.

3 x 10^8 metr yr eiliad...
cysylltiadau busnes
cyflym fel mellten i Gymru

Mae cymorth busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru yn newid.

Ein ffocws newydd yw darparu gwell amgylchedd a seilwaith i bob busnes, fel bod y sector preifat yng Nghymru yn barod am ddyfodol llewyrchus, cadarn.

Mae ein dull newydd yn targedu ein hadnoddau mewn ffordd a fydd o fudd i bob busnes yng Nghymru. Ein ffocws fydd buddsoddi mewn seilwaith, ymchwil a datblygu a gwella'r amodau mae busnesau yn gweithredu oddi mewn iddynt.

Rydym wedi siarad â busnesau ledled Cymru ac wedi gwrando ar yr hyn rydych wedi'i ddweud – felly mae ein polisi newydd yn adlewyrchu eich adborth.

Mae Adnewyddu Economaidd yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod band eang y genhedlaeth nesaf ar gael i bob busnes yng Nghymru erbyn canol 2016, ac i bob cartref erbyn 2020 – a gwelliant sylweddol yn y rhwydwaith ffonau symudol. Bydd hefyd yn gweld addysg a hyfforddiant sy'n fwy addas i ddiwallu anghenion busnes.

Erbyn 2020 bydd gennym y cysylltiadau busnes cyflymaf yn y DU...yn Ewrop efallai. Mae'n anhygoel yr hyn y gall polisi newydd ac ychydig o ffibr optig ei wneud!

Rydym am greu Cymru sy'n lle gwych i fyw a gweithio ynddo. Mae'n ddull tecach a mwy cynaliadwy o roi cymorth i'r gymuned fusnes. Ac fe allwch ddechrau gweld y manteision ar unwaith.

Cynnyrch cartref. Rydym am roi cymorth ar bob cam o ddatblygu busnes yng Nghymru.

Dyna pam rydym am helpu pobl sydd eisiau dechrau busnesau newydd a'u cefnogi yn ystod eu blwyddyn gyntaf ac wedi hynny.

I fusnesau yn ein prif sectorau, mae pecyn gwych o gymorth penodol gan gynnwys hyfforddiant a datblygu sgiliau (megis sgiliau arwain a rheoli), pobl neilltuol i roi cymorth ym meysydd arloesi ac ymchwil a datblygu, gwasanaethau eiddo a chyfleoedd cydweithredu academaidd.

Byddwn hefyd yn ei gwneud yn haws i gwmnïau Cymru wneud cynnig am gontractau caffael yn y sector cyhoeddus, ac rydym wedi ymrwymo i dorri ar fiwrocratiaeth pan fyddwch yn delio â ni.

Gallwch fanteisio ar hyn i gyd, a chyfoeth o gymorth, cyngor a chyfarwyddyd drwy ffonio un rhif a mynd i un wefan.

03000 6 03000
busnes.cymru.gov.uk

Buddsoddi mewn seilwaith a sgiliau

Bydd ein prosiectau seilwaith hirdymor o fudd i fusnesau yng Nghymru a hefyd yn rhoi cyfleoedd i'w gweithredu.

- Gan weithio o'r lefel fwyaf sylfaenol, rydym yn cyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf fel y bydd gan bob busnes (erbyn 2016) a phob cartref (erbyn 2010) fynediad i o leiaf 30 Mbps. Rydym hefyd yn gwneud yn siwr bod gan o leiaf 50% o gartrefi a busnesau fynediad i gyflymder o 100 Mbps neu fwy.
- Fel rhan o'n cynllun trafnidiaeth hirdymor, caiff prif ffyrdd a chysylltiadau rheilffyrdd eu gwella a'u gwneud yn fwy effeithlon.
- I helpu eich busnes i dyfu, rydym yn cynnig gwasanaeth dadansoddi ac adroddiadau ar anghenion hyfforddi, hyfforddiant sgiliau sylfaenol a chyfres o weithdai a chyrsiau i helpu eich gweithlu i ddatblygu sgiliau busnes penodol.

Rydym am eich cyflogi!
Fe hoffen ni glywed mwy o hyn.

- Rydym yn gweithio i deilwra'r cwricwlwm mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion, i sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau y mae ein busnesau yn dweud wrthym y mae eu hangen arnynt. Bydd gwell prentisiaethau a throsglwyddo gwybodaeth yn mireinio'r sgiliau hynny fwy byth.

Mae Adnewyddu Economaidd yn syniad mawr sy'n cael ei droi'n gynllun hirdymor – ac yn y pen draw bydd pawb yng Nghymru yn gweld y manteision.

Y budd i'ch busnes

Y 6 sector allweddol

Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch – Diwydiannau Creadigol – Ynni a'r Amgylchedd – Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol – TGCh – Gwyddorau Bywyd

Rydym wedi nodi chwe sector allweddol sy'n cael effaith sylweddol ar economi Cymru nawr, ac y mae disgwyl iddynt dyfu yn y dyfodol: Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Diwydiannau Creadigol, Ynni a'r Amgylchedd, Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol, TGCh a Gwyddorau Bywyd.

Rydym yn cynnig pecyn cymorth eithriadol i bob cwmni yn y sectorau hyn – beth bynnag eu maint. Caiff y gwaith o ddatblygu ein cymorth i sectorau ei arwain gan chwe phanel sector, sef arbenigwyr diwydiant o'r tu allan i'r llywodraeth – ac rydym yn croesawu deialog gyda busnesau ar sut dylai ein cymorth ddatblygu.

Crynodeb o'r cymorth

- Datblygu sgiliau a hyfforddiant wedi'i deilwra.
- Pobl i roi cymorth ym meysydd arloesi ac ymchwil a datblygu i sicrhau'r effeithlonrwydd a'r capasiti mwyaf posibl, ymchwilio i ddatblygu cynnyrch newydd a gweithio tuag at fasnacheiddio eiddo deallusol.
- Mae Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth yn eich helpu i wella perfformiad â lleoliad wedi'i ariannu i raddedigion sy'n para o rai misoedd i ddwy flynedd.
- Cyfleoedd cydweithredu academaidd i ddatrys problemau a datblygu technolegau newydd.
- Gwasanaethau eiddo sy'n ymateb i'ch anghenion.
- Cyllid busnes ad-daladwy i hybu twf busnes.

Dr Who, Enillwyr y Wobr Nobel...mae syniadau gwych yn dechrau yng Nghymru.

Busnesau newydd

Cynyddwyd nifer y busnesau newydd yng Nghymru y llynedd... mae lle i fwy bob amser.

Rydym yn gwneud mwy byth o waith gyda phobl ifanc i ysbrydoli entrepreneuriaeth. Rydym yn annog ac yn cefnogi entrepreneuriaid posibl i ddatblygu eu syniadau i ddechrau eu busnesau eu hunain a'u helpu i dyfu.

Mae busnesau newydd yn allweddol i gael gwaed newydd i fusnesau Cymru.

Crynodeb o'r cymorth

- Hybu gweithgareddau i hyrwyddo'r arfer o feddwl yn nhermau busnes a threfnu gweithgareddau busnes ym maes addysg. Ysbrydoli pobl ifanc i feddwl mewn ffyrdd entrepreneuraidd.
- Sesiynau blas a chyngorfeydd i'ch helpu i gynllunio a dechrau busnes newydd.
- Cymorth arbennig i bobl ddi-waith, pobl dan anfantais a phobl eraill i oresgyn y rhwystrau i ddechrau busnes.
- Cymorth ymarferol yn ystod y flwyddyn gyntaf sy'n parhau i fusnesau â photensial mawr ar gyfer twf neu gyflogaeth.
- Ystod helaeth o adnoddau ar gael ar-lein ac ar y ffôn.

*Gweithgarwch entrepreneuraidd ymhlith pobl ifanc, graddedigion a menywod yng Nghymru...yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU.**

*Adroddiad Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang 2009

Busnesau Bach a Chanolig

Bach neu ganolig – fe wnawn ni ei helpu!

Busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn ein heconomi. I fusnesau bach a chanolig yn ein chwe sector allweddol, mae yna wasanaeth un stop, ond i fusnesau eraill mae cyfoeth hefyd o wasanaethau ac adnoddau ar gael ichi ar-lein, ar y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Crynodeb o'r cymorth

- Dadansoddi'r hyfforddiant sgiliau sydd eu hangen i'ch busnes dyfu.
- Gweithdai sgiliau busnes a hyfforddiant sgiliau sylfaenol i ddatblygu eich gweithlu.
- Cymorth i baratoi eich cynigion tendr i ennill contractau yn y sector cyhoeddus.
- Gweithdai ledled Cymru i'ch helpu i fynd i'r afael â materion fel cael gafael ar gyllid a'r broses gynllunio.
- Gwasanaethau eiddo i'ch helpu i ddod o hyd i leoliad sy'n diwallu eich anghenion.
- Cymorth rhanbarthol i fusnesau sylweddol y tu allan i'r chwe sector allweddol.
- Ystod eang o adnoddau ymarferol ar-lein ac ar y ffôn.
- Cyfarwyddyd i'ch helpu i ddod o hyd i gymorth ehangach o'r trydydd sector, cyrff preifat a mannau eraill.

Cymorth ariannol

Mae gennym ddull newydd o ddelio â chyllid busnes sy'n canolbwyntio ar fuddsoddi. Rydym yn ystyried mai ein prif rôl yw galluogi busnesau.

Erbyn hyn, mae'n rhaid talu cyllid Llywodraeth y Cynulliad yn ôl, fel bod modd ailgylchu arian a fuddsoddir gan fod o fudd i fwy o fusnesau yn y tymor hir. Siaradwch â ni os yw eich datblygiad busnes yn dibynnu ar gyllid bwlch nad yw ar gael mewn mannau eraill.

Crynodeb o'r cymorth

- Mae Cyllid Busnes Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn cynnig cyllid di-log, y gellir ei dalu'n ôl dros gyfnod o hyd at saith mlynedd.
- Mae cyllid busnes ar gael hefyd ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu.
- Mae Cyllid Cymru, un o is-gyrff Llywodraeth y Cynulliad a berchnogir yn llawn ganddi, yn cynnig ystod o gynnyrch cyllid busnes.
- Gall prosiectau symudol gael gafael ar gyllid i amcanion penodol.
- Mae Cymorth Masnach ar gael i gael mynediad i farchnadoedd newydd, cynyddu gwerthiant a hyrwyddo'r gallu i gystadlu.
- Mae'r Gronfa Buddsoddi Lleol, sydd ar gael drwy Awdurdodau Lleol, yn cynnig hyd at £10,000 i fusnesau mewn ardaloedd sy'n cael cymorth arian cydgyfeirio. Mae hyn ddwywaith y swm a gynigiwyd yn flaenorol, ac nid oes rhaid ei ad-dalu.
- Bwrsariaethau i raddedigion sy'n bwriadu dechrau busnes sydd â photensial i dyfu.
- Mae Cyllid Rhanbarthol yn cefnogi busnesau yn ôl cryfderau ac anghenion rhanbarthol.
- Mae grantiau Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fod ar gael ar gyfer y diwydiant bwyd, busnesau twristiaeth a phrosiectau effeithlonrwydd adnoddau.
- Mae Llywodraeth y DU hefyd yn cynnig amrywiaeth o gymorth a gallwn eich helpu i fanteisio arno.

Buddsoddwyr uniongyrchol tramor

Dewisodd Cwpan Ryder Gymru – rydyn ni o'r farn y dylech chi wneud yr un peth.

Rydym yn awyddus i ymgysylltu â chwmnïau sy'n cynnig prosiectau buddsoddi symudol o ansawdd (buddsoddiadau a allai ymsefydlu yn unrhyw ran o'r byd), a byddwn yn siarad â'r cwmnïau am unrhyw agwedd ar y cymorth.

Beth rydych chi am weld eich busnes yn ei wneud? Tyfu...ffynnu... allforio?...a ninnau hefyd. Mae'n amlwg bod angen inni siarad!

Sut mae cael gafael ar y cymorth hwn?

Ffôn: 03000 6 03000

Gwefan: busnes.cymru.gov.uk

Ymholiadau Rhyngwladol: +44 (0)1443 845500

75% wedi'i ailgylchu recycled

978 0 7504 5869 6 / WAG10-10619 / G/MH/3868/11-10 / Tachwedd / Cysodwyd mewn 12pt / © Hawlfraint y Goron 2010